*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 15**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **17/06/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Y Dirprwy Glerc** |
| Pwnc | **Adolygu'r Cyfansoddiad** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr adolygiad o'r elfennau cyfansoddol o Gyfansoddiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a cheisio cymeradwyaeth i'r diwygiadau arfaethedig.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y Cyfansoddiad ei gymeradwyo gan yr Awdurod yn ystod mis Mehefin 2015. Arfer dda yw mynd ati'n rheolaidd i adolygu'r ddogfen er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n gyfoes. Yn ystod 2018/19, cafodd nifer o adrannau eu hadolygu fel y nodir ym mharagraffau 7 i 13 o'r adroddiad hwn.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) cymeradwyo'r diweddariadau i'r Cyfansoddiad fel yr amlinellir ym mharagraffau 7 i 13 o'r adroddiad hwn; a
(ii) nodi'r camau a gynigir ar gyfer 2019/20 er mwyn sicrhau bod y Cyfansoddiad yn parhau'n gyfoes.

**CEFNDIR**

4 Mae'r Cyfansoddiad yn darparu fframwaith clir ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys chwe adran:

(i) Crynodeb ac esboniad;
(ii) Erthyglau'r Cyfansoddiad;
(iii) Cyfrifoldeb dros Swyddogaethau;
(iv) Rheolau a Gweithdrefnau;
(v) Codau a Phrotocolau; a
(vi) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Aelodau

**5** Cafodd y Cyfansoddiad ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub ar 15 Mehefin 2015. Ers yr adeg honno, mae Cod Ymddygiad yr

Aelodau wedi cael ei ddiwygio yn 2016 i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol.

**GWYBODAETH**

6 Cydnabyddir mai arfer dda yw cynnal adolygiad rheolaidd o elfennau cyfansoddol y ddogfen. Cynhaliwyd yr adolygiadau canlynol yn ystod 2018/19:

1. adolygu cylchoedd gorchwyl y Pwyllgor Archwilio, y Panel Gweithredol a'r Bwrdd Pensiwn Lleol;
2. adolygu a diweddaru'r Rheolau Sefydlog Contractau; ac
3. adolygu a diweddaru'r Codau a'r Protocolau

**Cylchoedd Gorchwyl**

7 Mae Rhan Tri o'r Cyfansoddiad yn darparu crynodeb o bwyllgorau'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys y Pwyllgor Archwilio, y Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Safonau. Mae'r strwythur diwygiedig sydd yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod y Bwrdd Pensiwn Lleol wedi'i gynnwys.

8 Roedd Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 yn mynnu bod cyrff sy'n gyfrifol am gynllun pensiwn sector cyhoeddus yn sefydlu Bwrdd Pensiwn Lleol. Swyddogaeth y Bwrdd Pensiwn Lleol yw cefnogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Yn Atodiad 2, nodir y cylch gorchwyl yn y cyfarfod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol ar 2 Mai 2019.

9 Cafodd cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio eu diwygio yn y cyfarfod ar 28 Ionawr 2019 er mwyn adlewyrchu'r cyfarwyddyd a ddaeth gan CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifiaeth) yn ystod 2018. Mae'r cylch gorchwyl diweddaredig wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

10 Cafodd cylch gorchwyl y Panel Gweithredol eu hadolygu gan y Dirprwy Swyddog Monitro, ac nid oedd angen diwygio dim.

11 Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau adolygu'r Codau a'r Protocolau ar gyfer yr aelodau a'r swyddogion, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael isod.

**Rheolau Sefydlog Contractau**

12 Mae Rhan 4 o'r Cyfansoddiad yn cynnwys rheolau a gweithdrefnau'r Awdurdod. Mae un elfen allweddol yn ymwneud â'r Rheolau Sefydlog Contractau, sy'n darparu fframwaith ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau. Mae hyn yn sicrhau bod contractau yn gyson â'r egwyddorion caffael yn y sector cyhoeddus sy'n ymwneud â thryloywder a gwerth am arian, a hefyd yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae rhai elfennau'n adlewyrchu deddfwriaeth Ewropeaidd gyfredol, ac mae sylwedd y

rheini'n debygol o barhau i fodoli ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd, er y bydd angen adolygu rhywfaint ar y ddogfen bryd hynny. Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau ar gael yn Atodiad 4.

**Codau a Phrotocolau**

13 Yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2018, penderfynodd y Pwyllgor Safonau y byddai, dros gyfnod o dair blynedd, yn adolygu'r codau a'r protocolau sydd yn y Cyfansoddiad. Cafodd y gwaith ei gwblhau yn 2018/19. Cafodd pob dogfen ei hadolygu i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, yn gyfoes a'i bod mor glir â phosibl er mwyn bod yn gymorth i'w deall. Mae'r dogfennau diweddaredig ar gael yn atodiadau 5 – 10.

- Atodiad 5 - y Cod Ymddygiad yr Aelodau - mae'r ddogfen hon yn seiledig ar god statudol gorfodol, ac roedd yn gyfoes gan mwyaf oherwydd cafodd ei hadolygu yn 2016;
- Atodiad 6 - y Protocol ar gysylltiadau rhwng Aelodau a Swyddogion – dim ond mân newidiadau oedd eu hangen i'r ddogfen er mwyn ei diweddaru;
- Atodiad 7 - y Drefn Ddatrys Leol – dim ond mân newidiadau oedd eu hangen i'r ddogfen er mwyn ei diweddaru;
- Atodiad 8 - y Protocol Rhoddion a Lletygarwch – roedd angen gwneud newidiadau i'r ddogfen i egluro'r drefn i'w dilyn i adrodd yngylch rhoddion/lletygarwch;
- Atodiad 9 - y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol – mae protocol yr Awdurdod ei hun yn dda iawn, ac roedd y Pwyllgor yn argymell mabwysiadu canllaw a ddaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ochr yn ochr â'r protocol; a
- Atodiad 10 - y broses Gwynion Safonol – roedd angen diweddaru'r ddogfen hon i adlewyrchu'r ffaith fod y Drefn Ddatrys Leol wedi cael ei mabwysiadu ers hynny.

**GWAITH ARFAETHEDIG 2019/20**

14 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cadarnhau y bydd y Rheolau Gweithdrefnau Ariannol (sydd yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad) yn cael eu hadolygu a'u diwygio yn ystod 2019/20.

15 Gwneir rhagor o waith i sicrhau bod y Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol sy'n digwydd o ganlyniad i ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

16 Bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru i adlewyrchu'r cyfarwyddyd a'r ddeddfwriaeth gyfredol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae llywodraethu da yn hanfodol i gyflawni amcanion cyffredinol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae bodolaeth trefniadau llywodraethu cadarn, a dilyn y trefniadau hynny, yn hyrwyddo'r defnydd effeithiol o adnoddau ariannol. |
| Cyfreithiol | Mae darparu Cyfansoddiad cynhwysfawr a chadarn yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd cyfreithiol. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw faterion. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw faterion. |
| Risgiau | Byddai methu â chynnal Cyfansoddiad cyfoes a chynhwysfawr yn golygu risg sylweddol i'r Awdurdod o ran cyflawni ei ddyletswydd. |